hynafiaid, fe etifeddodd yntau grefft hefyd – nid yn gymaint i drin coed efallai, ond, yn sicr, y ddawn i drin geiriau. Heb amheuaeth, mae ôl paratoi trylwyr ar ei bregethau bob amser.

Buddiol yw cofnodi rhai o'r testunau y bu'n pregethu arnynt yn Esgairdawe. Testun ei bregeth gyntaf wedi iddo gael ei alw'n weinidog, a hynny ar fore Sul, Rhagfyr 16eg, 1990 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Luc 19:10 | — | Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig. |

Roedd testun ei bregeth gyntaf yn y flwyddyn newydd yn un addas ac amserol, o gofio mai troedio i mewn i gyfnod dieithr a wneir yr adeg arbennig hon:

| | | |
|---|---|---|
| Diarhebion 16:20 | — | Y mae'r . . . un sy'n ymddiried yn yr Arglwydd yn ddedwydd. |

Ar Fawrth 3ydd, sef y Sul agosaf at Ddydd Gŵyl Ddewi, traddododd bregeth ar y testun:

| | | |
|---|---|---|
| Salm 106:5 | — | A llawenhau yn llawenydd dy genedl, a gorfoleddu gyda'th etifeddiaeth di. |
| Sul y Pasg: Luc 24:34 | — | Yn dweud fod yr Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi. |
| Sul y Pentecost: Ioan 16:8 | — | A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod, a chyfiawnder, a barn. |

Yn ddiweddarach, cafwyd cyfres o destunau o Lyfr yr Actau:

| | | |
|---|---|---|
| 1:1 | — | Ysgrifennais y llyfr cyntaf, Theoffilus, am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu. |
| 1:8 | — | Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear. |
| 1:11 | — | Ac meddai'r rhain, "Wŷr Galilea, pam yr ydych yn sefyll yn edrych tua'r nef? Yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthych i'r nef, bydd yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef. |

Dyma ddau destun arall:

| | | |
|---|---|---|
| 1 Cor. 15:3 | — | Oherwydd, yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau. |
| Rhuf. 3:25 a 26 | — | Yr hwn a osododd Duw gerbron y byd, yn ei farw aberthol, yn foddion puredigaeth trwy ffydd. Gwnaeth Duw hyn i ddangos ei gyfiawnder yn ddiymwad, yn wyneb yr anwybyddu a fu ar bechodau'r gorffennol yn amser ymatal Duw. Ie, i ddangos ei gyfiawnder yn ddiymwad yn yr amser presennol hwn, sef, ei fod ef ei hun yn gyfiawn a hefyd yn cyfiawnhau'r sawl sy'n pwyso ar ffydd yn Iesu. |

Dichon fod rhai o'r testunau uchod yn ymddangos yn aneglur ar y darlleniad cyntaf, ond, wrth ddilyn sylwadau esboniadol y pregethwr, ceir goleuni ar y gwirioneddau mwyaf dyrys. Mae'n syndod fel y gall gweinidog yr Efengyl dreiddio mor ddwfn er mwyn canfod ystyr a neges ei destun, a'i drosglwyddo mewn modd diddorol ac effeithiol i'w gynulleidfa. Onibai am hynny, onid ofer a fyddai'r paratoi a'r traethu?

Dangosodd Hywel Jones ei bod yn ddyletswydd arno i fugeilio'i braidd hefyd, yn ogystal â'u porthi. Cymer ddiddordeb yng ngwahanol sefyllfaoedd ei aelodau, boed rheiny'n llawen neu drist. Diddorol yw sylwi mai ef yw'r chweched a fu'n gweinidogaethu yn yr eglwys hon gyda'r cyfenw 'Jones'. Yn ogystal, codwyd nifer i'r weinidogaeth yn dwyn yr un cyfenw a hefyd y pererinion y croniclir eu hanes yn y gyfrol hon.

Gwaetha'r modd, lleihau a wna y nifer sy'n mynychu'r capel, ac, o ganlyniad, collwyd y cyfoethogrwydd a geid gynt yng nghaniadaeth y cysegr o Sul i Sul. Diflannodd y cyngherddau a'r eisteddfodau a gynhelid o dan nawdd y capel. Fe gofia Mrs. Moreena Jones, priod y gweinidog, am yr amser hwnnw, pan oedd yn blentyn yn ardal Pumsaint, ac yn dod i gystadlu yn Eisteddfodau Esgairdawe. Bellach, dychwelodd i'r fro a gwerthfawrogir ei chymorth a'i chyfraniad teilwng tuag at chwyddo'r gân mewn capel gwledig fel hwn.

[1]Cofnodion Thomas Thomas, Maesteile (trysorydd), drwy law ei wyres, Miss Olwen Davies.
[2]Sylwadau'r Parchedig Giraldus Jones, drwy law ei ferch, Mrs. Beti Owen, Caerdydd.
[3]Enwau'r Aelodau a Chyfrifon, 1870 – 1906, Adran Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[4]Sylwadau'r Parchedig Giraldus Jones, drwy law ei ferch, Mrs. Beti Owen, Caerdydd.
[5]Ibid.
[6]Cofnodion Thomas Thomas, drwy law ei wyres, Miss Olwen Davies.
[7]ibid.
[8]ibid.
[9]ibid.
[10]ibid.
[11]ibid.
[12]ibid.
[13]Dogfen o eiddo'r Parchedig Giraldus Jones, drwy law ei ferch, Mrs. Beti Owen, Caerdydd.
[14]Ibid.
[15]*Blwyddiadur yr Annibynwyr,* 1980.
[16]Dogfen o eiddo'r Parchedig Giraldus Jones, drwy law ei ferch, Mrs. Beti Owen, Caerdydd.
[17]Ibid.
[18]Ibid.
[19]Rhan o Raglen 'Bod', drwy law y BBC, Caerdydd.
[20]Ibid.
[21]*Y Tyst,* Ionawr 25ain, 1990, t.l.
[22]Ibid.

# III

# GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL

**Yr Ysgol Sul**

Fel y crybwyllwyd eisoes, sefydlwyd Ysgol Sul yn Esgairdawe yn ystod gweinidogaeth Rhys Jones, sef rhwng 1818 a 1858. Dyma un o'r cymwynasau mwyaf a wnaed gan y rhai a fu'n gweinidogaethu yn yr eglwys o 1743 hyd heddiw. Ni ellir dirnad gwerth a dylanwad yr Ysgol Sul. Dyma'r sefydliad sy'n sail gadarn i unrhyw eglwys a gellir adeiladu'n llewyrchus arni. Pan fydd yr Ysgol Sul yn ffynnu, gellir sicrhau fod yna ddyfodol i'r achos crefyddol yn yr ardal honno. Dyna'r sefyllfa mewn ysgol ddyddiol hefyd. Pan fydd nifer y babanod yn uchel y mae gobaith i'r ysgol honno.

Bu Ysgol Sul heb ei hail yn yr eglwys ar un adeg. Deuai cynulliad cryf o blant ac oedolion y fro yno'n weddol gyson:

> Cynhaliwyd cyfarfod Athrawon, Sul, Gorphenhaf 4ydd 1909 pryd y pasiwyd y penderfyniadau canlynol –
> *Ysgrifennydd* — Josua Jones, Glantawe
> *Trysorydd* — Thos. Evans, Tredomen
> *Arolygwr* — Thos. Evans, Tredomen
> *Athrawon* —
> Dos. 1af — Abel Thomas, Bryndifyr
> Dos. 2ail — Evan Jones, Cwmtrebeddau
> Dos. 3ydd — Josua Jones, Glantawe
> Dos. 4ydd — John Morgan, Tanyffordd
> Dos. 5ed — Mary Williams, Brynyrysgol[1]

Diddorol yw cofnodi enwau'r rhai a fynychai'r pum dosbarth a sylwi fod yna bedwar neu bump aelod o ambell deulu yn eu plith. Byddai'r tri dosbarth hynaf yn cwrdd yn y capel a'r plant lleiaf yn y llofft fach.

*Y Dosbarth Cyntaf*

| | | |
|---|---|---|
| *Athraw:* | Abel Thomas, Bryndifyr | Tom Lloyd, Pannau |
| | Dd Davies, Groes | Ben Lloyd, Pannau |
| | Dd Williams, Rhydlydan | Walter Evans, Lango |

G. George, Bryndafydd
T.P. Parry, Brynllefrith
Dl Williams, Brynyrysgol
Johnie Williams, Brynyrysgol
Wm Williams, Brynyrysgol
Wm Morgan Jones, Llundain
Henry Williams, Llundain
Dd Jones, Pettygate
Dd Morgan, Tanyffordd
Wm Morgan, Tanyffordd
Griff. Griffiths, Alltfydyr
Tom Davies, Pyllau
Ben Davies, Pyllau
Dd Morgan, Maesygwiel issa
Evan Williams, Brynyrysgol

*Yr Ail Ddosbarth*

*Athraw:* Evan Jones, Cwmtrebeddau
Morgan Jones, Penrhiw
Tom Evans, Crachdir
Ben Lewis, Maesygwieluchaf
Morg. Morgan, Troedyrhiw
Dd John Davies, Pantycelyn
Ev John George, Bryndafydd
Wm Morgan, Maesygwielissaf
Dd John Jones, Alltfydyr
Dd Lloyd, Pannau
John Thomas, Bryndifyr
Harry Tompson

*Y Trydydd Dosbarth*

*Athraw:* Josua Jones, Glantawe
Elizabeth George, Bryndafydd
Eleanor Morgan, Maesygwielissaf
Mary Morgan, Maesygwielissaf
Kate Davies, Groes
Sarah Jones, Penrhiw
Anne Thomas, Rhydfallenissaf
Mgt. A. Parry, Brynllefrith
M. Price, Cwmcanol
Mgt. Jones, Caemawr
Mary A. Jones, Llundain
Raddie Morgan, Tanffordd
Cathrine Morgan, Storom
Anne Edwards, Pantglas
Sarah A. Jones, Cwmtrebeddau
Blodwen Williams

*Y Pedwerydd a'r Pumed Dosbarth*

*Athrawon:* { John Morgan, Tanyffordd
Mary Williams, Brynyrysgol }
Willie Morgan, Troedyrhiw
Nellie Morgan, Troedyrhiw
Lizzie Morgan, Troedyrhiw
Mary Jane Morgan, Troedyrhiw
Dd James Jones, Rhydfallenissaf
Mgt. Anne Jones, Rhydfallenissaf
Lettica Jones, Penrhiw
Jane Jones, Hendrelas
Hannah Morgan, Maesygwielissaf
Morg.John Jones,Maesygwielissaf
Dd Willie Jones, Llundain
Mgt. J. Morgan, Tanyffordd
Mary Morgan, Tanyffordd
Mgn. Morgan, Tanyffordd
James Morgan, Tanyffordd
Ellen Morgan, Tanyffordd
Hannah Thomas, Bryndifyr
Annie Jones, Esgair
Nellie Davies, Pantteg
Mary Jones, Cwmtrebeddau
Mary Morgan, Storom
John Evans, Tredomen
Dd Williams, Groes

*Arolygwr:* Thos. Evans, Tredomen

Cyfanswm = 75[2]

Nid oedd cyfanrif y presenoldeb yn uchel oherwydd afiechyd a'r gorchwylion beunyddiol ar y fferm. Tebyg fod yna esgusodion hefyd; ni cheid plisman plant i fygwth a chosbi am absenoldeb.

Does dim pwrpas i eglwys nac unrhyw sefydliad sy'n bodoli'n unig er ei mwyn ei hun. Ni fyddai swyddogion yr Ysgol Sul hon yn cyfyngu eu cymorth i blant yr eglwys yn unig. Byddent yn lledu'u gorwelion ac yn cynorthwyo cymdeithasau byd-eang, megis Cymdeithas Genhadol Llundain. Ym 1911, casglwyd £1-16-6 at y gymdeithas yma a £2-8-1 ym 1921. Cesglid yn flynyddol at wahanol achosion. Mae'n debyg mai dim ond un gweinidog, sef D. Myddfai Thomas a gafodd gyfle i fynychu'r Ysgol Sul.

Trefnid Meysydd Llafur ar gyfer y gwahanol ddosbarthiadau gan Undeb Ysgolion Sabothol yr Annibynwyr Cymraeg. Cynhelid arholiadau'n flynyddol a rhoddid gwobrau teilwng iawn i bob dosbarth, – Medal Aur i'r cyntaf; Medal gyda chanol Aur i'r ail a thair gwobr mewn Llyfrau, gwerth 10/-, 7/6 a 5/- i'r tri nesaf atynt mewn rhai dosbarthiadau. Gyda threigl y blynyddoedd, daeth yr arferiad o baratoi ar gyfer arholiadau i ben. Yn hytrach, amcan yr Ysgol Sul, bellach, oedd trwytho'r plant a'r bobl ifainc i ddarllen ac astudio'r Gair. Defnyddid 'Storïau o'r Beibl' i'r plant lleiaf. Bu'r trafod a'r dadlau ymhlith y rhai hŷn yn fodd i ddysgu hanesion yr Hen Destament a'r Newydd.

Yn ystod dauddegau'r ganrif hon, dechreuwyd rhoi llyfrau i'r rhai o fynychai'r Ysgol Sul gyda chysondeb, a chyflwynwyd *'Testament Newydd'* gyda'r geiriau, "I Gofio'r Cymun Cyntaf" arno i bob un a gâi ei dderbyn yn aelod o'r capel. Cafodd aelodau'r Ysgol Sul gyfle hefyd i gyflwyno *Llyfr Emynau* i un o bileri'r sefydliad, sef Joshua Jones, Glantawe, ar ei ben blwydd yn drigain a deg ar Hydref 27ain, 1941.

Gwaetha'r modd, teneuodd poblogaeth y fro a gostyngodd nifer y plant. Tua diwedd y pumdegau, bu'n rhaid cau'r ysgol ddyddiol ac yn fuan wedi hyn, gwelwyd tranc yr Ysgol Sul hefyd. Bu'n golled fawr i'r dyrnaid o blant a godwyd wedi hynny ac a amddifadwyd o ddysgeidiaeth werthfawr yr Ysgol Sul.

**Sain Cân a Moliant**

Ni cheir unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r rhai oedd yn arwain y gân yn Esgairowen nac ychwaith yn yr Hen Dŷ Cwrdd, ond gwyddom fod cewri cerddorol wrth y llyw ddiwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau hon. Yn eu plith, 'roedd John Jones, Caemawr; John Morgan, Tan-y-ffordd a Thomas Thomas,

Maesteile. Cyflawnodd y tri yma'u gwaith nid drwy gymorth organ neu biano, ond teclyn bychan a elwid 'pitch-fork'. Medrent daro'r nodyn cywir bob tro, pa gyweirnod bynnag yr oedd angen amdano. Rhaid eu bod yn deall y teclyn rhyfedd hwn ac yn ei ddefnyddio'n fedrus iawn.

Yn ôl tystiolaeth lafar, credir mai dysgu emynau ar gof a wneid yn y cyfnod cynnar a'u canu ar y Sul heb gymorth unrhyw lyfr. Daeth goleuni ym mis Awst, 1895, pan ymddangosodd y *Caniedydd Cynulleidfaol* cyntaf. Fe'i cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Caniedydd, yn cynnwys un cynrychiolydd o bob Cyfundeb, yn ogystal â thri wedi'u hethol gan Undeb yr Annibynwyr. Dichon fod bri mawr ar y Caniedydd hwn ymhlith aelodau Esgairdawe a'i fod wedi'i ddefnyddio'n gyson yn y capel presennol. Daeth y *Caniedydd Cynulleidfaol Newydd* o'r Wasg ym mis Ebrill, 1921, yn cynnwys emynau a thonau newydd, ychwanegol.


Gellid tybied fod teclyn fel 'pitch-fork' yn fwy addas ar gyfer person ifanc nag i rywun a aeth heibio i 'oed yr addewid'. Dim ond y nodyn i ddechrau'r dôn a geid gan hwn, ac 'roedd yn rhaid i'r 'codwr canu' feddu ar lais ac anadl i gynnal y gân hyd ddiwedd yr emyn. Gwaith anodd, yn enwedig pan fyddai annwyd yn effeithio ar y llais.

Felly, penderfynwyd symud gyda'r amserau er mwyn ysgafnhau baich Thomas Thomas, Maesteile, y codwr canu:

> Mudiad diddorol . . . ydoedd pwrcasu organ, i gynorthwyo gyda'r canu. Dim ond un hen ddiacon oedd yn aros, ac ef hefyd ydoedd y codwr canu. Gwelid fod y corff yn dadfeilio a'r llais yn mynd yn wanach o oedfa i oedfa. Mentrodd y gweinidog awgrymu'n gynnil ryw Sul ym mis Awst, 1939, mai dymunol a fyddai cael offeryn bach i gynorthwyo'r canu. Erys yr atebiad yn fyw ar ein cof. "Pan ewch ar wyliau, prynwch un", meddai.[3]

Ie, dyna ymateb Thomas Thomas i syniad chwyldroadol y gweinidog parthed hwyluso caniadaeth y cysegr yn Esgairdawe.

Wedi dychwelyd o'i wyliau yr aeth y gweinidog o dŷ i dŷ i gasglu. Casglodd £27-0-0, a chyn pen ychydig amser, prynwyd organ, gyda'r geiriau, 'Bell, Ontario, Canada' arno. Talwyd £26-0-0 amdano, ac i ran y gweinidog hefyd y daeth y gorchwyl o'i ganu am y tro cyntaf mewn oedfa, a hynny yn yr Ŵyl Ddiolchgarwch yr Hydref hwnnw, gyda'r Parchedig Creunant Davies, Pumsaint yn pregethu. Diwrnod cofiadwy ydoedd. Er



*Yr Organ*

hynny, teg yw cofnodi bod rhai o ferched ifainc yr eglwys wedi mentro ar ddefnyddio'r organ yn yr Ysgol Sul a'r Ysgol Gân rai wythnosau cyn hyn.

Dyma enwau'r rhai a fu'n gwasanaethu wrth yr organ: Parchedig Giraldus Jones; Margaret Jones, Tŷ'r Capel; Maggie Maud Morris, Pantfyd; Marion Phyllis Reeves, Bryndifyr; Mary Olwen Davies, Maesteile; Mary Eunice George a Sarah Agnes George, Bryndafydd. Diddorol yw cyfeirio at y ffaith i'r organ gael ei archwilio ym 1949 am dâl cyn lleied â £1-2-6.

Daeth *Y Caniedydd* o'r Wasg ym 1960. Archebwyd dau gopi 'Hen Nodiant' y tro hwn – un ar gyfer y pulpud a'r llall i'r organyddion. Er bod dros ddeng mlynedd ar hugain oddi ar ymddangosiad yr argraffiad hwn, deil yn flasus o hyd. Darparwyd ar gyfer plant a phobl ifainc hefyd. Cyhoeddwyd *Caniedydd yr Ysgol Sul* ym 1900. Defnyddiwyd hwn yn gyson hyd nes daeth argraffiad arall ohono ym 1930, sef *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul.* Llyfr poblogaidd arall yn yr eglwys yw *Sŵn y Jiwbili.* Bu rhain yn ddefnyddiol ar gyfer Cyfarfodydd y Plant a Chyngherddau.

Mae Capel Esgairdawe yn perthyn i Gymanfa Ganu'r Annibynwyr a gynhelir yn Soar, Llambed oddi ar y cychwyn, sef 1881. Ar un adeg, trefnwyd bws i gludo'r aelodau i'r

Gymanfa, a gynhelid ar yr ail ddydd Mercher ym mis Mai. Dengys hyn faint y brwdfrydedd y pryd hwnnw – gadael gweithgareddau'r fferm er mwyn ymuno yn y gân. Bellach, cynhelir y Gymanfa ar y Sul a lleihaodd nifer y cantorion. Sefydlwyd Cymanfa arall, sef 'Cymanfa Ganu Undebol Dyffryn Cothi' ar Hydref 6ed, 1950. Fe'i cynhaliwyd yng Ngrug-y-bar, ac yn y Gymanfa gyntaf honno, defnyddiwyd Rhaglenni'n cynnwys yr emynau ac enwau'r tonau'n unig am bris tra rhesymol, sef tair ceiniog. Yr arweinydd gwadd oedd Mr. Dan Jones, Pont-y-pridd a llywyddwyd oedfa'r prynhawn gan y Parchedig Giraldus Jones.

Cynhaliwyd nifer o Rihyrsals yn Esgairdawe o dan nawdd y ddwy Gymanfa, a heb amheuaeth, bu'r paratoi mewn Ysgol Gân ac ymuno ar ddydd y Gymanfa yn gyfrwng i wella'r canu mewn capel gwledig fel hwn. Yn ystod y ganrif hon, bu amryw yn codi'r canu – rhai'n swyddogol ac eraill yn ysgwyddo'r gwaith yn ôl y galw:

John Jones, Caemawr; John Morgan, Tanffordd; Thomas Thomas, Maesteile; Parchedig Giraldus Jones; Joshua Jones, Glantawe; Dafydd Jones, Tŷ'r Capel; Evan Tom Jones, Bryn-difyr; Mary Olwen Davies, Maesteile.

Mae caniadaeth y cysegr yn rhan bwysig o'r addoliad ond gyda'r lleihad yn nifer yr aelodau, gwanhau a wnaeth y gân yn ddiweddar. Er hynny, clywir nodau'r bâs a'r alto, ar adegau, ond diflannodd llais Dafydd Jones, y tenor mwynaidd a glywid yn gyson hyd ganol y pumdegau. Pery'r organ i fod o gymorth amhrisiadwy ac yn gefnogaeth i'r sawl sydd braidd yn ofnus i fentro clywed ei lais ei hun. Do, cyflawnodd yr organ ei bwrpas. Mae yn y sedd fawr ers dros hanner can mlynedd. Ychydig iawn o sylw a gaiff ar wahân i dipyn o wres y trydan a'r bregeth ar y Sul, ond, drwy drugaredd, deil ei sain mor beraidd a swynol ag yr oedd yn y Cwrdd Diolchgarwch hwnnw ym 1939.

### Cyfarfodydd Gweddi

Arferid cynnal cyrddau gweddi'n gyson yn yr eglwys, ond, tua chanol y ganrif hon, diflannodd yr arferiad yn llwyr. Fe'u cynhelid bob yn ail nos Sul, pan fyddai'r gweinidog yn gwasanaethu yn Ffaldybrenin, ac unwaith yn ystod yr wythnos yn ogystal. Roedd bri ar gyrddau gweddi ar ddechrau blwy-

ddyn hefyd – ar nos Fawrth a nos Iau o'r wythnos gyflawn gynta' ym mis Ionawr.

Nid oedd angen i'r gweinidog wneud dim ond llywyddu'r cyfarfodydd hyn oherwydd ceid digon o wirfoddolwyr i ddarllen rhannau o'r Gair, annerch gorsedd gras a rhoi ambell emyn o'u dewisiad allan gydag arddeliad. Diaconiaid oeddynt, fel rheol. Âi rhai ohonynt i hwyl anghyffredin wrth weddïo, gan godi a gostwng y llais yn ôl y gofyn a chynnwys deisyfiad personol yn ymwneud â phroblemau a phrofedigaethau'r daith. Bu ambell ferch ifanc yn ddigon dewr i gymryd rhan hefyd, gan geisio efelychu'r cewri profiadol gyda chryn sêl a gostyngeiddrwydd.

Daeth tro ar fyd. Ni chlywir neb, bellach, ond y pregethwr yn gweddïo'n gyhoeddus yn y capel. Dichon fod rhai'n offrymu gweddi dawel, ymbilgar mewn gwasanaeth ac yn eu cartrefi. Onid dyma orchymyn yr Arglwydd Iesu, yn ôl Mathew 6:5-6?

> A phan fyddwch yn gweddïo, peidiwch a bod fel y rhagrithwyr; oherwydd y maent hwy'n hoffi gweddïo ar eu sefyll yn y synagogau ac ar gonglau'r heolydd, er mwyn cael eu gweld gan ddynion ... Ond pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel, a bydd dy Dad sydd yn gweld yn y dirgel yn dy wobrwyo.

**Y Gymdeithas Ddiwylliadol**

Nid oes cofnodion ar glawr am weithgareddau'r cyfnod cynnar. Diau fod yna frwdfrydedd i gyfarfod i ddarllen ac astudio'r Beibl. Rhaid cofio mai oes y cerdded neu farchogaeth ydoedd a bod angen penderfyniad ac ymroddiad i gyrraedd y cysegr neu gartrefi anghysbell y fro, yn enwedig ar nosweithiau tywyll, gaeafol. Ar waethaf popeth, tebyg i'r brodorion cynnar ymdrechu i gymdeithasu â'i gilydd.

Yn ystod gweinidogaeth Giraldus Jones, cafwyd amryw o nosweithiau cofiadwy. Ffurfiodd ef Gymdeithas Ddiwylliadol a fu'n llewyrchus dros ben. Yn ystod y tridegau, da o beth oedd cael arweinydd ymroddedig i ddiwyllio'r bobl ifainc. Cyfarfyddai'r Gymdeithas yn festri'r capel bob pythefnos yn nhymor y Gaeaf. Nodir enwau'r aelodau a rhai o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1937 a 1940.

Dyma swyddogion ac aelodau'r Gymdeithas ym 1937-38:



*Y Festri*

Cadeirydd y Pwyllgor — Parchedig Giraldus Jones
Ysgrifenyddes — Maggie Morris, Pantyfyd
Trysorydd — Ivor Hughes, Pyllau

*Aelodau'r Pwyllgor* – Lizzie Jones, Tŷ'r Capel; Marion Reeves, Bryndifyr; Thomas John Davies, Esgerwen; David Lewis Jones, Gwar-coed.

*Aelodau eraill y Gymdeithas* – Thomas Ivor Jones, Cwmdawe; David John Davies, Gelly; Arthur Jones, Llundain; Evan H. Evans, Prifathro'r Ysgol; Ellen Morgan, Bryneithin; Betsy a May Evans, Blaengofiarth; Elizabeth a Rachel Jones, Gwar-coed; Nancy a Mary Eunice George, Bryndafydd; Elizabeth Price, Caemawr; Tom Morgan, Tyn-grug.

Wele enghreifftiau o'r gweithgareddau:

*Tachwedd 2ail – Noson Bapurau*
*Cadeirydd* – D.L. Jones, Gwar-coed
Darllenwyd papurau gan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Elizabeth Jones, Gwar-coed, | Testun – Ofergoeliaeth |
| Maggie Morris, Pantyfyd, | Testun – Cwrs y Lli |
| T.J. Davies, Esger-wen, | Testun – Cneifio'r Defaid |
| Ivor Hughes, Pyllau | Testun – Dafydd Dafis, Castell Hywel |

Siaradwyd gan y Parchg. Giraldus Jones, A.L. Jones, Llundain a M. Reeves (Athrawes yn yr Ysgol).
Cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gan L. Jones, Tŷ Capel ac eiliwyd gan B. Evans, Blaengofiarth.
*Rhagfyr 14eg – Noson o Ddadleu*
*Cadeirydd* – Jeffrey Morris, Pantyfyd
*Testun* – "A yw'r byd yn gwella?"

| *Cadarnhaol* | *Nacaol* |
|---|---|
| David L. Jones, Betsy Evans | A.L. Jones, M. Reeves |

Siaradwyd gan y canlynol:
Elizabeth Jones, E. Morgan, L. Jones, M. Morris, N. George, Rachel Jones, Mary George, T.I. Jones, I. Hughes a T.J. Davies.
Cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gan Ivor Hughes ac eiliwyd gan E. Morgan, Bryneithin.
Terfynwyd trwy ganu emyn.
*Ionawr 25ain*
*Cadeirydd* – M. Reeves
Cafwyd anerchiad gan ein gweinidog y Parchg. Giraldus Jones ar y testun, "Fy Hen Weinidog', (Y Parchg. Ben Davies, Pant-teg, Ystalyfera).
Siaradwyd gan J. Jones, E.H. Evans, D.L. Jones a Mrs. G. Jones.
*Mawrth lleg*
I derfynu tymor y Gymdeithas trefnwyd te i'r aelodau ynghyd â'r plant... Ar ôl y te cafwyd cyngerdd. Cadeiriwyd gan y Parchg. G. Jones.

Cymerwyd rhan gan y canlynol:
*Canu:* Megan Davies, Gwynfor Dyer, Douglas Dyer, Eirlys Dyer, Agnes George, Joan Davies, Blodwen Davies, Dorothy Dyer, Gwenda Hill, Katie Hill, Marion Reeves.
*Adrodd:* Megan Davies, Joan Davies, Eirlys Dyer, Dorothy Dyer, Betty Protheroe, Mair Protheroe, Oswald Morgan.
Terfynwyd trwy ganu emyn.

*Chwefror 14eg 1939 – Noson o Ddarllen*
*Cadeirydd* – John Price, Cae-mawr
Darllenwyd gan y canlynol:
Parchg. G. Jones, Ivor Hughes, E. Morgan, M. Morris, Elizabeth Jones, Nancy George, Lizzie Jones, Betsy Evans, M. Reeves, D.L. Jones a A.L. Jones.
Cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r cadeirydd gan y Parchg. G. Jones ac eiliwyd gan M. Reeves.

*Ionawr 3ydd, 1940*
Cafwyd darlith gan Miss A.M. Jones, B.A., Gwar-coed.
*Testun:* "Y Daith i Switzerland"
*Cadeirydd:* Mrs. G. Jones
Siaradwyd gan y Parchg. G. Jones. Cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gan Mr. J. Jones, Glantawe ac eiliwyd gan y Parchg. Gwydrim Davies, (gweinidog wedi ymddeol ac ymgartrefu yn y fro).[4]

Pan ganfu'r Parchedig Giraldus Jones fod aelodau'r Gymdeithas yn aeddfed mewn gallu i sefyll a siarad yn gyhoeddus o flaen cynulleidfa, mentrodd gam ymhellach. Symbylwyd ef i gynhyrchu nifer o ddramâu byrion a llwyddo

i hyfforddi'r rhai ifainc i'w perfformio'n weddol llwyddiannus. Bu'n help i ambell un daflu elfen o swildod o'r neilltu am byth!

**Adloniant**

**Eisteddfodau**

Bu Capel Esgairdawe yn gyrchfan i lu o eisteddfodwyr yn negawdau cynnar y ganrif hon. Yn ogystal â denu cystadleuwyr profiadol o bell, câi'r plant a'r oedolion lleol gyfle i ymarfer eu doniau. Dysgwyd y caneuon a'r adroddiadau i'r plant gan yr athrawon yn yr ysgol gerllaw. Byddent yn ymarfer yn gyson am wythnosau a'r prifathro'n colli ei amynedd ambell dro pan âi pethau o chwith.

Byddai'r elw ariannol yn mynd i goffrau'r eglwys, ond ni ellir mesur maint y budd a'r dylanwad a adawodd y paratoi a'r cystadlu ar drigolion y cylch.

**Cyngherddau a Dramâu**

Mewn un cyfnod, cynhelid cyngerdd bob nos Nadolig gyda'r elw at gronfa'r capel. Fe'u cynhelid yn yr ysgol gerllaw a byddai'r plant wrth eu bodd yn cyflwyno'u heitemau. Cân a ddaeth yn boblogaidd ac yn ffefryn oedd 'Y Cwydryn Llon', cyfieithiad o'r 'Happy Wanderer' a ganwyd gyntaf yn Eisteddfod Llangollen ym 1956 neu 1957, gan gôr o blant o'r Almaen. Cynhwysid eitemau megis 'Siani', gan Idwal Jones, Llambed; Cân Actol – 'Hen Fenyw Fach Cydweli'; Canu Penillion; Dramâu byrion, gan gynnwys 'Gwella Buan' gan Eiddwen James; Adroddiadau megis 'Y Ceffyl Llonydd' a 'Lleidr Afalau' gan Thomas Jones, bardd lleol, yn ogystal ag eitemau ar y thema, 'Nadolig'.

Dyma rai o'r amrywiol adloniannau eraill a drefnwyd yn y pumdegau o dan nawdd y capel:

| | |
|---|---|
| *Chwefror 18fed, 1950* | *Elw* |
| Cyngerdd gan Barti o Wauncaegurwen | £21-5-0 |
| *Rhagfyr 7fed, 1951* | |
| Noson yng nghwmni 'Adar Duon Tregaron' | 22-18-0 |
| *Rhagfyr 5ed, 1952* | |
| Comedi, 'Y Siop Newydd' gan gwmni Dyffryn Mynis, Llanwrda | 18-16-3 |

*Rhagfyr, 1953*
Darlith gan D.J. Williams 9-0-0

*Rhagfyr 25ain, 1954*
Cyngerdd gan Dalentau Lleol 14-3-6

Gwaetha'r modd, distawodd lleisiau plant y fro. Bellach, ni threfnir unrhyw adloniant lleol. Aeth y cyfan i blith y pethau a fu ond erys yr atgofion a'r dylanwad dyrchafol. Cafwyd ymlifiad o Saeson i'r ardal a chollwyd y brwdfrydedd a fu. Ymfodlonodd y rhelyw o'r Cymry ar yr adloniant a geir o'r bocs yng nghornel yr ystafell fyw neu mewn canolfannau eraill. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth ffoaduriaid i'r ardal. Ni fuont yn mynychu'r Ysgol Sul nac unrhyw oedfa ond trefnwyd cyngherddau i groesawu milwyr y fro adre o'r Lluoedd Arfog.

Ni ellir troi'r cloc yn ôl ond daw hiraeth am y dyddiau dedwydd pan ddarperid digon o weithgareddau ysgafn i blant a phobl ifainc. 'Does dim sy'n well na digon o ddiddordebau. Gwelir fod gwirionedd yn y geiriau, 'Rhydd Satan waith i ddwylo segur'.

Tybed pa effaith a gafodd y gweithgareddau uchod ar aelodau'r eglwys. Deil rhai ohonynt, sef y gweddill ffyddlon, i ymdrechu yn y winllan er mwyn ceisio sicrhau bod drws y capel ar agor o Sul i Sul. Dewisodd eraill feysydd brasach, gan fedi'r cynhaeaf drwy fentro allan i'r byd i gyhoeddi'r Efengyl. Teimlent hwy mai eu dyletswydd oedd cydnabod yr hyn a dderbyniasant yn yr eglwys hon, yn eu cyfnod, drwy geisio ei drosglwyddo i eraill. Cawn hanes rhai ohonynt yn y bennod nesaf.

[1] Cofrestr a Chyfrifon yr Ysgol Sul, 1908-1910.
[2] Ibid.
[3] Sylwadau'r Parchedig Giraldus Jones, drwy law ei ferch, Mrs. Beti Owen, Caerdydd.
[4] Cofnodion y Gymdeithas Ddiwylliadol, 1937-1940.

## IV

# MEDI'R CYNHAEAF

**Cewri'r Pulpud a godwyd yma**

Fel yn y mwyafrif o gapeli ac eglwysi Cymru, codwyd nifer o bregethwyr yn Esgairdawe. Gan fod eglwysi Esgairdawe a Ffaldybrenin yn cael eu hystyried fel un yn y cyfnod cynnar, mae'n anodd dweud pwy oedd yn perthyn i'r naill a phwy i'r llall. Yn eu plith, ceir enwau Daniel Jones, Aber; Thomas Griffiths a'i fab, David Griffiths; David Richards; David Morgan; Evan Jones, Crug-y-bar; James Rhys (Kilsby) Jones, mab y Parchedig Rhys Jones; Samuel Davies; Evan Davies; John Ll. Jones; John D. Jones a William Thomas. Dyma hanes dau o'r cewri hyn:-

**Y Parchedig Evan Jones, Crug-y-bar**

Ganed Evan Jones ym mis Ebrill, 1804, mewn lle o'r enw 'College' ar lan afon Teifi, ger Llanybydder. Mae'n bosibl i'r ffaith iddo gael ei eni mewn cartref o'r enw yma fod yn ddylanwad ar ei fywyd oddi ar ddydd ei enedigaeth. Mab ydoedd i John Jones ac 'roedd ei dadcu, Joseph Jones, yn fab i Evan Jones, y gwehydd, a fu'n golofn i'r Achos yng Ngrofft-y-cyff. Roedd ei fam, Elizabeth Jones, yn aelod gyda'r Bedyddwyr yn Aberduar cyn priodi, ac yn chwaer i Thomas Lewis, tad Dafydd Lewis, ffatriwr ger Rhyd-y-bont, yr hwn a fu'n gyfrwng i hybu'r achos crefyddol yno. Bu ei fab, Dafydd Lewis, yn ddiacon ac organydd yn Rhyd-y-bont a Daniel Lewis, mab arall, yn ddiacon gweithgar yn Abergorlech.

Gyda'r Annibynwyr yn Rhyd-y-bont yr oedd John Jones, tad Evan, yn aelod a pharhaodd ei rieni'n ffyddlon i'w heglwysi am flynyddoedd ar ôl priodi. Yn fuan wedi geni Evan, symudodd y teulu i Rydowen Fach, fferm ger Pencarreg. Dilynai John Jones y grefft o wneuthur cribau a ddefnyddid gan fer-

ched a gwragedd wrth drin gwlân i wneud edafedd at wau dillad i'r teulu. Yn ôl yr hanes, 'roedd yn grefftwr medrus.

Codwyd Evan, yr unig blentyn, yn ddoeth a derbyniol. Ni fu'r teulu'n cartrefu'n hir yn Rhydowen Fach chwaith. Ym 1811, symudasant i Dywilym, fferm fechan a welir heddiw gerllaw'r ffordd o Lambed i Bumsaint, nid nepell o gopa'r mynydd, ym mhlwy Pencarreg. Gan nad oedd ei gartref ond ychydig ffordd o'r Hen Dŷ Cwrdd, Esgairdawe, yno y cafodd Evan ei addysg fore – yn addysgol a chrefyddol. Yn y cyfnod hwnnw, cynhelid ysgol ddyddiol yn y capel, lle deuai plant y fro ynghyd i gael eu haddysg. Yno hefyd yr addolai'r saint ar y Sul. Nid oedd yr amgylchfyd yn ddelfrydol ar gyfer cynnydd corff na meddwl. Roedd y lle'n dywyll, y llawr pridd yn anaddas a'r meinciau di-gefn yn galed ac anghysurus. Er hynny, i wneud iawn am yr anfanteision hyn, 'roedd yno ysgolfeistr rhagorol o'r enw Daniel Abel. Trigai yn Nhan-y-gaer, lle gweddol gyfleus. Hoffai'r plant ef ac 'roedd yntau'n fawr ei barch gan y rhieni. Cyn hir, daeth Evan yn ffefryn ganddo oherwydd ei ymdrech a'i gynnydd gyda'i wersi. Roedd yn ddarllenwr da, yn ysgrifennwr galluog ac yn fedrus gyda'i rifyddeg. Eto i gyd, gofidiai ei rieni'n fawr am na ddangosai unrhyw ddymuniad am ymgymryd â rhyw orchwyl neu grefft arbennig. Felly, gadawsant ef yn yr ysgol yn hwy na'r arfer, gan ddisgwyl iddo benderfynu ar fater o alwedigaeth.

Pan oedd yn ddeunaw oed, derbyniwyd Evan yn aelod yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Ar yr un adeg, ymadawodd ei fam ag Aberduar a'i dad â Rhydybont ac ymaelododd y teulu cyfan yn Esgairdawe. Yn fuan, dechreuodd Evan gymryd diddordeb yng ngweithgareddau'r cysegr. Gwelai'r enwog Thomas Davies, Coedeiddig dueddiadau ynddo i fod yn bregethwr a gweinidog da. Drwy ei anogaeth a'i ddylanwad ef y penderfynodd ymgymryd â'r gwaith, gan ddechrau pregethu yn Esgairdawe ym 1823, pan oedd yn bedair ar bymtheg mlwydd oed. Daeth ei achos gerbron yr eglwys. Fe'i holwyd gan y Parchedig Griffiths, Horeb, ac ar ôl cael derbyniad cymeradwy gan aelodau'r Hen Dŷ Cwrdd, cafodd wahoddiad i bregethu ar hyd y gymdogaeth. Credir mai yng nghartref Thomas Davies y traddododd ei bregeth gyntaf i gyfeiriad Llambed ac yn Rhydlydan ar y ffordd i Bumsaint. Trigai Morgan William yno – un o arweinwyr yr Achos yn Esgairdawe. Ar derfyn y

bregeth, dyma oedd ymateb un o'r gwrandawyr:

> Wel, y mae hwn yn gymwys i fyned uwchben dynion.[1]

Trôdd popeth o'i blaid – ymdeimlad yr eglwys, dedfryd yr aelodau, ymateb ei gydwybod a gair yr Efengyl. Oherwydd ei ymroddiad i'r gwaith, cafodd bregethu yn Esgairdawe yn fisol am gyfnod. Dyna beth oedd 'anrhydedd i broffwyd yn ei wlad ei hun'. Cyn cyrraedd ei ugain oed, ceisiodd am drwydded seneddol i bregethu, nid oherwydd nad oedd ganddo ffydd yn eglwys Esgairdawe ond am ei fod yn awyddus am wneud popeth yn drwyadl a derbyniol. Dyma gopi o'r drwydded a gafodd:

> I, Jn. Jorn. Jones, Esq., one of His Majesty's Justices of the Peace, in and for the County of Cardigan, do hereby certify that Evan Jones of the Parish of Pencarreg, in the County of Carmarthen, this day appeared before me, and did make and take and subscribe the Oaths and Declarations specified in an Act, made in the Fifty-second year of the Reign of King George the Third, entituled an Act to repeal certain Acts and amend other Acts, relating to religious worship and assemblies and persons, teaching or preaching therein.
> "Witness my hand this Third day of March, 1824.
> "JN. JOR. JONES."[2]

Nid oedd safon ysgol Daniel Abel yn gyfryw i gynnig ychwaneg o addysg i Evan oherwydd ei allu arbennig. Felly, aeth i Athrofa enwog Neuadd-lwyd, lle'r hyfforddid pregethwyr y cyfnod. Teimlai Evan ei bod cyn bwysiced iddo fynd yno i baratoi ei hun ar gyfer ei waith gweinidogaethol ag ydoedd i geisio am drwydded. O dan athrawiaeth Dr. Phillips gwnaeth gynnydd arbennig, yn enwedig mewn Saesneg, ei brif bwnc. Profodd ei fod yn ddiffuant, yn ddifrifol a medrus gyda'i waith. Bu yno am bedair blynedd er mwyn meithrin a goleuo'i orwelion a'i feddwl. Rhannodd lety gyda mab y diweddar Batriarch James Williams o Droedrhiwdalar, a thrwy'r adnabyddiaeth hon, daeth i gysylltiad ag eglwys Annibynnol y Brych-goed. Bu'n pregethu yno droeon pan oedd yn Neuadd-lwyd a chreodd y fath argraff ar yr aelodau fel y rhoddwyd galwad iddo. Fe'i harwyddwyd gan dros gant o bobl. Dyma gopi ohoni:

> We, whose names are hereunto subscribed, being members of the Church of Christ at Brychgoed, in the Parish of Devynock, in the County of Brecon, after having a sufficient proof of the ministerial

talents of Mr. Evan Jones, do hereby give him a call to become our stated minister; hoping that he will comply with our request, and we promise to pray for him, and to contribute towards his support, according to our circumstances.

"Brychgoed, July, 1829."[3]

Cydsyniodd â'r cais ac urddwyd ef yno ar Dachwedd 11eg a'r 12fed, 1829, pan oedd yn bump ar hugain mlwydd oed. Roedd pymtheg o weinidogion a deuddeg o fyfyrwyr yn bresennol, sy'n dangos eu parch tuag ato. Holwyd y gofyniadau gan ei weinidog ef, y Parchedig Rhys Jones a rhoddwyd siars i'r gweinidog ifanc gan y Parchedig D. Williams, Llanwrtyd. Gymaint oedd gorfoledd y bobl fel y gorfu iddo roi heibio cyn gorffen ei bregeth ac uno yn y "diolch iddo" a'r "bendigedig". Rhoddwyd siars i'r eglwys gan y Parchedig W. Jones, Rhyd-y-bont, cyn-weinidog tad Evan Jones. Cafwyd cyfarfodydd eneiniedig.

Ar Orffennaf 30ain, 1830 ymbriododd Evan â Mrs. Davies, gweddw James Davies, Ynysau Isaf, ger Pumsaint. Roedd ganddi dri o blant. Dyma deulu crefyddol a oedd yn enwog am roi llety i bregethwyr. Wedi ymgartrefu yn Ynysau Isaf, parhaodd Evans Jones i wasanaethu ym Mrych-goed bob pythefnos. Derbyniodd ugeiniau o aelodau yno, yn fawr ei barch er ei fod yn byw ymhell o'i ofalaeth. Roedd eglwys Crug-y-bar heb weinidog oddi ar 1829 ac Evan Jones yn gwasanaethu yno'n gyson. Rhoddwyd galwad iddo ar Fehefin 29ain, 1835 ac ymatebodd iddi. Yn fuan wedyn, rhoddodd y gorau i'w waith gweinidogaethol ym Mrych-goed a sefydlwyd ef yng Nghrug-y-bar. Dyma gyfnod delfrydol i ddechrau ar faes newydd – 'roedd dylanwad diwygiad yn drwm yn y tir:

> Yr oedd tân y diwygiad wedi gwresogi y lle, ac enwau cedyrn yr oes o'r blaen wedi anfarwoli y gymdogaeth, sef, Dafydd Sion Edmund, William Evan Rhydderch, Sarah Evan, a Nancy Jones, neu Nani, Crugybar – Miriam diwygiadau crefyddol ei hoes.[4]

Ym 1837, cymerodd Evan ofal eglwys Abergorlech hefyd a datblygodd ei ofalaeth gyda chryn lewyrch. Eto i gyd, tra gwahanol oedd ei fywyd personol. Profodd chwerwder bywyd y tu hwnt i bob dirnadaeth. Roedd wedi'i freintio â phedwar o blant, – Evan, Eliza, Margaret a William. Erbyn hyn, 'roedd Mrs. Jones wedi claddu ei mam, a chan mai hi oedd yr unig blentyn, gwahoddodd ei thad hi a'i theulu i fyw ato ym Mlaen-

y-maes, Llan-y-crwys. Ond, daeth profedigaethau llym i ran y Parchedig Evan Jones. Bu farw Evan, Eliza a William, a hefyd ei briod a'i dad-yng-nghyfraith rhwng 1832 a 1843. Yn awr, nid oedd ganddo ond un ferch, sef Margaret a thri o lys-blant i'w hymgeleddu a gwnaeth hynny heb achwyn.

Roedd angen capel newydd yng Nghrug-y-bar – yr hen adeilad yn prysur ddadfeilio. Bu'r eglwys yn ffodus yn ei gweinidog. Profodd Evan Jones fod ganddo'r cymwysterau i arwain y bobl a chynllunio'r fangre newydd. Codwyd capel hardd, sef y pedwerydd yn y lle. Fe'i agorwyd tua dechrau 1837 a'r ddyled bron wedi ei thalu ddydd yr agoriad.

Tra gwahanol oedd pethau yn Abergorlech. Codwyd capel newydd yno ym 1827, ond 'roedd gwir angen trwsio'r dodrefn oedd ynddo.

> Yr oedd gweddillion arferiadau y tywyll oesau fel wedi ymgasglu i'r dyffryn hwn, ac yn cadw meddiant o'r lle – megis ymladd, codymu, troedio'r bêl, a'r cyffelyb bethau. Yr oedd ysbryd y pethau hyn yn meddiannu y bobl, ac yn ymwthio i'r capel newydd – pob un am fod yn ben ym mhob campwaith.[5]

Methodd y ddau olaf o'r cynweinidogion â dileu'r arferion hyn ond llwyddodd Evan Jones i arwain yr eglwys a chael trefn o'r anrhefn a fu.

Yn y cyfnod hwnnw, dechreuwyd ystyried Dirwest o ddifrif. Dymuniad y gweinidog oedd ymarfer yr egwyddor o fewn ei deulu a hefyd ymhlith y cyhoedd. Cafodd gefnogaeth gref gan ei lys-ferch, Anne Davies, a oedd erbyn hynny yn ceisio cymell pobl ifainc, yn enwedig pregethwyr, i ymwrthod â diod feddwol. Parai ei sylwadau i'r perwyl hynny dipyn o ddychryn i'r diotwyr, ond llawenydd a thawelwch meddwl i'r Saint. Roedd llawer o'r ardalwyr, gan gynnwys rhai o aelodau eglwys Crug-y-bar, yn groes i'w chynghorion pan gymerai ran mewn cyfarfod gweddi ar fore Sul. Felly, oherwydd digwyddiadau cwerylgar ynglŷn â'r mater llosg hwn, penderfynodd Evan Jones roi gofalaeth Crug-y-bar i fyny ddechrau 1842. Teimlodd yr eglwys ei cholled. Penderfynwyd rhoi ail alwad iddo ac ailafaelodd yn ei waith. Anghofiwyd y problemau a chafwyd heddwch unwaith eto.

Gan ei fod yn byw ym Mlaen-y-maes, tua phum milltir o Grug-y-bar, credai rhai fod hynny'n anfanteisiol, yn enwedig pan fyddai angen bedyddio neu weinyddu'r cymun i glaf yn ei

gartref. Ni fyddai bodlonrwydd i rywun dieithr wneuthur hyn. Deallai Evan y sefyllfa. Nid person i anghofio'i ddyletswyddau ydoedd a'u gadael yn ddisylw. Sylweddolodd ei bod yn bryd iddo aildrefnu ei fywyd teuluaidd. Daeth i gysylltiad â Mrs. Jane Phillips, gweddw John Phillips a fu'n borthmon poblogaidd yn yr ardal, a merch i'r Parchedig D. Rees, gweinidog gyda'r Methodistiaid yn Llanrhystud. Am fod gofalon teuluaidd yn drwm ar ysgwyddau Evan Jones a'i lys-ferch, Anne, yn bwriadu ymbriodi, credodd yntau y byddai Mrs. Phillips yn wraig ddelfrydol iddo. Priodwyd hwy ar Fedi 15fed, 1846, ac o'r briodas hon ganwyd iddynt bedair o ferched.

Aethant i fyw i Fryntelych ger Ffrwd-fâl, yr hyn oedd wrth fodd aelodau Crug-y-bar. Addysgwyd ei blant o'r ailbriodas yn Athrofa Ffrwd-fâl, ysgol yr enwog Barchedig W. Davies, Ph.D. Daeth Evan i gysylltiad â nifer o ddynion ifainc a ddaethai i'r Athrofa i baratoi eu hunain ar gyfer y weinidogaeth. Dyma farn un ohonynt amdano:

> Mr. Jones is a deep ocean of love, surrounded by a very thin coat of ice.[6]

Parhaodd ei rieni i geisio cael bywoliaeth yn Nhywilym, hyd nes y bu farw ei fam ym 1847. Daeth ei dad ato i Fryntelych. Gwerthwyd yr hen gartref a'i gynnwys; ni hysbysebwyd yr arwerthiant mewn capel, yn ôl arferiad y cyfnod, ond drwy bosteri. Bu hyn yn syndod i bawb. Ni chafwyd unrhyw ddiod gadarn yno chwaith. Bu farw John Jones, tad Evan, ym 1853. Fe'i claddwyd ym meddrod ei briod yn Ffaldybrenin.

Er mai gwaith eglwysig a gâi sylw pennaf Evan, 'roedd yn weithgar dros bob achos teilwng yn y fro yn ogystal. Cymerai ddiddordeb yng ngwaith ei fferm hefyd. Gwyddai'r ffordd i amaethu. Daeth yn ail mewn cystadleuaeth ar y testun, 'Amaethyddiaeth' mewn eisteddfod yn yr Ogofau, ger Pumsaint ym 1858. Profodd ei fod yn gymydog maddeugar tu hwnt a phan aeth gwartheg un o'i gymdogion i mewn i'w gae gwenith a'i ddifodi pan oedd yn aeddfed i'w dorri, ofnai hwnnw'r canlyniadau pan aeth i hysbysu'r gweinidog am hynny, a gofynnodd, –

> "Beth wna eich bodloni am y golled?" "Dim, – hwyrach mai fy ngwartheg I fydd yn eich llafur chwi y tro nesaf", oedd yr ateb llariaidd.[7]

Caffaeliad i ardal yw cael person cyfrifol a galluog fel Evan Jones. Deuai pobl y gymdogaeth ato i gael ei gymorth ar lawer mater, megis gwneud ewyllysiau a chytundebau priodasol. Cyfrifid ef fel cyfreithiwr. Câi ei ddwrdio'n aml ond gwerthfawrogid ei wasanaeth gan y rhai oedd am weithredu cyfiawnder.

Gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelodau yng Nghrug-y-bar ac Abergorlech o dan ei weinidogaeth. Yn ystod Diwygiad 1859, ychwanegwyd 107 at Grug-y-bar a 90 at Abergorlech. Roedd Esgairdawe a Ffaldybrenin heb weinidog yr adeg hon a derbyniodd Evan Jones 100 o aelodau i gymundeb yn Ffaldybrenin un bore Sul. Rhoddodd hyn ysbrydiaeth arbennig iddo ef ac i aelodau'r eglwys.

Ni chyfyngai'r gweinidog hwn ei lafur ymarferol i eglwysi ei ofalaeth ef yn unig. Ar wahân i godi capel newydd yng Nghrug-y-bar ym 1837 a'i adnewyddu yn ddiweddarach, cefnogodd yr Achos yng Ngharmel a bu aelodau Cil-y-cwm yn ffodus o gael ei gymorth pan godwyd yno gapel hardd am £320 yn y flwyddyn 1860. Cliriwyd y draul yn fuan a rhoddai Evan Jones ei wasanaeth yn rhad bob Sul, yn fisol. Gellid ei ystyried fel cenhadwr yn y parthau hyn. Roedd ganddo feddwl agored a gwelodd gyfle i roi ei symbyliad i bobl ardal Bwlch-y-ffin, tua thair milltir o Grug-y-bar, i godi capel neu ysgoldy. Âi rhai o'r ardalwyr i Grug-y-bar, eraill i Garmel a Thabor, Llanwrda. Ceid yno gymysgedd o gredinwyr – Methodistiaid, Bedyddwyr ac Eglwyswyr. Roeddent yn dyheu am fangre addas i ymgynnull. Drwy frwdfrydedd Evan Jones, adeiladwyd capel Bwlch-y-ffin. Daeth y gwaith i ben ym 1864. Talwyd y cyfan, sef £120 mewn byr amser.

Rhoddodd y gwaith yma'r fath foddhad iddo fel yr aeth ati i balmantu'r ffordd i adeiladu ysgoldy yng Nghrug-y-bar. Ychydig cyn hynny, 'roedd wedi gwerthu ei fferm, Blaen-y-maes lle trigai cyn symud i Fryntelych, ac wedi prynu'r Borthyn, ger Crug-y-bar. Cyflwynodd ddarn ohoni, yn ymyl y ffordd fawr, er mwyn codi'r ysgoldy a gostiodd £200. Ysgol Frytanaidd oedd hon, cyn i'r Byrddau Ysgol gael eu ffurfio. Wedi i'r ddeddf honno ddod i rym, dechreuwyd Bwrdd Ysgol yng Nghaeo. Dau aelod blaenllaw oedd Mr. Johnes, Dolau Cothi ac Evan Jones, Crug-y-bar, y blaenaf yn gadeirydd a'r olaf yn isgadeirydd, yr hwn a gyflwynodd Ysgoldy newydd Crug-y-bar i'r Bwrdd.

Ym 1868, symudodd Evan a'i deulu i'r Borthyn, ond cyn iddo gael seibiant i ymsefydlu yno, daeth galwad iddo gynorthwyo gydag adeiladu addoldy Annibynnol yn Llansawel. Wedi hir fyfyrio, rhoddwyd y gorchwyl yn nwylo'r 'brenin' o Grug-y-bar. Aeth ati i gasglu at y fenter a bu'r ymateb yn ddihareb. Daeth y gwaith i ben ac agorwyd y capel, a elwid Siloh, ym mis Hydref, 1869, a'r Parchedig Evan Jones a fu'n gyfrifol am weinidogaethu yno. Cydweithiai â Jonah Evans a gadwai ysgol yn Llansawel. Ar Fehefin 9fed, 1870, ordeiniwyd Jonah Evans i gyflawn waith y weinidogaeth, fel cynorthwy-ydd i Evan Jones yn Siloh a Chrug-y-bar. Rhoddodd yr olaf y gorau i'w ofalaeth yn Abergorlech ym 1872, wedi gwasanaethu yno am 35 o flynyddoedd.

Daeth stormydd geirwon i'w ran yn y cyfnod hwn hefyd. Collodd ei ail wraig a'i bedair merch gan adael un ferch o'r briodas gyntaf yn unig. Dim ond ef oedd ar ôl yn y Borthyn. Anaml y gwelid gweinidog yn cael cymaint o brofedigaethau, ond safodd yn gryf ar waethaf yr ergydion. Trigai Margaret, ei ferch a'i theulu ym Mhen-y-coed, ac ym 1875, gwahoddodd hwynt ato i'r Borthyn.

Ymhen dwy flynedd, ac yntau wedi croesi oed yr addewid, rhoddodd heibio ei waith gweinidogaethol, ar ôl treulio deugain a dwy o flynyddoedd yng Nghrug-y-bar. Urddwyd Mr. D.B. Richards o Athrofa'r Bala yn olynydd iddo. Ni pharhaodd hoedl yr hen weinidog yn hir wedyn. Trawyd ef yn sâl pan oedd yn paratoi pregeth ar gyfer aelodau Bwlch-y-ffin, a bu farw'n 73 mlwydd oed. Treuliodd hanner canrif namyn dwy yn y weinidogaeth. 'Rôl cael gyrfa faith, llafurio'n ddyfal a phrofi trallodion chwerw, daeth y diwedd yn hollol ddigyffro. Claddwyd ef y tu ôl i gapel Crug-y-bar mewn bedd a baratôdd iddo'i hun. Mae'r ffaith fod tua deugain o weinidogion yn ei arwyl yn profi ei fod yn barchus a phoblogaidd ymhlith ei gydweinidogion. Yn fuan wedyn, gosodwyd cofgolofn iddo, gyda'r geiriau canlynol arni:

> Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd.[8]

Meddai ar gymeriad boneddigaidd. Myfyriai'n ddwfn wrth baratoi pregeth ac fe'i traethai yn eglur a dealladwy. Gallai aelodau Hen Dŷ Cwrdd Esgairdawe ymfalchïo'n y ffaith fod